
a unitarian and free christian publication

# **ffydd** sy'n werth **meddwl** amdani



cyflwyno'r **Undodiaid**

# Pwy yw'r Undodiaid?



*Mae'r fflam yn symbol i'r Undodiaid ar draws y byd. Mae nifer o'n gwasanaethau'n dechrau eu haddoliad trwy oleuo'r gannwyll.*

*Mae'r Undodiaid yn gymuned ysbrydol sy'n eich annog i feddwl dros eich hun.*

### MAEN NHW'N CREDU

- bod gan bawb yr hawl i chwilio am wirionedd ac ystyr drostynt eu hunain
- bod profiadau bywyd, eich adlewyrchiad arnynt, eich dealltwriaeth reddfol a chymelliadau eich cydwybod yn offer hanfodol er mwyn chwilio am y gwirionedd ac ystyr hynny
- mai'r lle gorau i wneud hyn yw mewn cymuned sy'n eich croesawu am yr hyn ydych chi – eich credoau, eich amheuon a'ch cwestiynau!

### GELLIR EU GALW'N 'GREFYDDWYR RHYDDFRYDOL'

- yn grefyddol oherwydd eu bod yn uno i ddathlu a datgan gwerthoedd sy'n cwmpasu ac yn adlewyrchu gwirionedd sy'n fwy na'r hunan
- yn rhyddfrydol oherwydd nad ydynt yn arddel unrhyw ddatguddiad na statws dros eu hunain; oherwydd fod ganddynt barch a goddefgarwch i'r rheiny sy'n dilyn llwybrau ffydd gwahanol.

### CÂNT EU GALW'N 'UNDODIAID'

- oherwydd eu pwyslais traddodiadol ar undod dwyfol, ar undod Duw
- oherwydd eu bod yn datgan undod hanfodol y ddynoliaeth a'r cread.

# Dull arbennig o ymdrin â chrefydd

### MAE UNDODIAID YN DATGAN

- y dylai pobl fwynhau rhyddid unigol a barn breifat mewn materion ysbrydol
- bod parch tuag at onestrwydd yn cael ei ffafrio dros y pwysau i gydymffurfio
- rydym i gyd yn rhan o ymchwil mewn bywyd, ac yn rhan o ddatblygu'r system gwerthoedd personol y mae pob un ohonom yn byw iddynt.
- y gallai ein credoau newid yng ngolau dealltwriaeth newydd.
- bod awdurdod terfynol eich ffydd o fewn eich cydwybod eich hun.


### AR Y DAITH HON RYDYM YN CAEL CYMORTH AC YN CAEL EIN HYSBRYDOLI

- trwy esiampl a dealltwriaeth ysbrydol pobl eraill
- ysgrifau a fernir i fod yn 'sanctaidd' ac yn 'gysegredig' gan wahanol draddodiadau ffydd y ddynoliaeth
- traddodiadau meddwl hanfodol ac athronyddol sydd wedi'u hetifeddu
- gwaith creadigol parhaus arlunwyr, cerddorion ac awduron
- ymchwil gwyddonwyr am wybodaeth a dealltwriaeth



*Frank Lloyd Wright Pensaer bydenwog ac wyr i Richard Jones, Blaen'ralltddu, ger Pont Sian*

# Rhwymau undod



*Hen Gapel Gellionnen ar y Mynydd ger Pontardawe. Yn 2008, cafodd y capel ei fandaleiddio'n ddrwg a cheisir adneyddu rhannau helaeth ohono ar hyn o bryd.*

## Mae'r Undodiaid yn canfod eu hundod mewn gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, megis

- meithrin dimensiwn ysbrydol bywyd
- defnyddio rheswm ac amheuon ynghylch gonestrwydd wrth chwilio am y gwirionedd
- parch ac ewyllys da mewn perthynas bersonol
- goddefgarwch a natur agored adeiladol tuag at gredoau didwyll pobl eraill
- heddwch, trugaredd, cyfiawnder a democratiaeth mewn materion dynol
- parch tuag at y ddaear a'r holl system naturiol rydym yn rhan ohoni.

Profiad yr Undodiaid yw bod gwerthoedd megis y rhain yn gosod sail mwy effeithiol ar gyfer cymuned nag y mae unffufriaeth credoau ac athrawiaeth yn ei wneud.

Mae Undodiaid yn datgan bod gwirionedd a dynoliaeth yn cael eu gwasanaethu orau pan fo'r meddwl a'r gydwybod yn rhydd. Maent yn arddel y gred nad oes gan un llyfr, sefydliad nag unigolyn y gwirionedd pennaf, heb roi pwys i'r hyn sy'n cael ei honni ganddyn nhw na'u dilynwyr.

# Cymunedau Undodaidd

Diben cynulleidfa Undodaidd yw

- i ddiwallu anghenion ysbrydol yr unigolyn yng nghyd-destun cynulleidfa gariadus
- i rannu llawenydd ac i gynnig cysur ar adegau anodd
- i fwynhau gwresogrwydd cymdeithas
- i wneud ei hun yn groesawgar, yn gynhwysol ac yn fendith i'r byd ehangach

Mae cynulleidfaoedd yr Undodiaid a Christnogion Rhydd wedi'u gwasgaru ar draws Ynysoedd Prydain. Efallai y cânt eu galw'n eglwysi, capeli neu gymdeithasau. Efallai bod ganddynt weinidog, a allai fod yn ddyn neu'n fenyw, neu gallant gael eu harwain gan arweinydd lleyg. Maent yn amrywio'n fawr o ran eu maint (o dros gant i llai na ddeg) a'u gweithgareddau. Efallai eu bod yn cyfarfod yn eu hadeiladau eu hunain, o dy cwrdd o'r ail ganrif ar bymtheg i eglwys fodern, mewn safleoedd sy'n cael eu llogi neu mewn cartrefi preifat.

Mae bron i ddau gant o gynulleidfaoedd ar dir mawr Prydain gyda phedair cynulleidfa yn yr Alban (yn y prif ddinasoedd) a thros ugain yng Nghymru (gyda nifer ohonynt yn cynnal cyfarfodydd Cymraeg neu gyfarfodydd dwyieithog). Mae tri ar ddeg o gapeli Cymraeg eu hiaith yn y Smotyn Du yng Ngheredigion rhwng Llanbed, Llandysul ac Aberaeron. Mae'r cymunedau hyn yn cael eu trefnu'n annibynnol ac yn ddemocrataidd.

Yn Iwerddon (yn y gogledd yn bennaf), mae chwaer-sefydliad i'r Undodiaid, y Non-Subscribing Presbyterian Church of Ireland, ac mae iddi hunaniaeth Gristnogol rhydd gryf.

Caiff cymunedau'r Undodiaid a'r Cristnogion Rhydd eu cysylltu trwy'r Gymanfa Gyffredinol (Y General Assembly). Mae'r corff hwn yn gweithredu er mwyn cryfhau bywyd a phrofiadau'r cynulleidfaoedd sy'n rhan ohoni a chynrychioli Undodiaeth yn y byd ehangach.

# Addoli'n ganolog

Addoli yw canolbwynt Undodiaeth sydd fel rheol yn digwydd ar ddydd Sul.

Gallai gwasanaeth Undodaidd gynnwys
- addoli'r hyn sy'n ddwyfol
- dathlu bywyd
- cadarnhau gwerthoedd sy'n cael eu rhannu
- cydnabod ein methiannau
- ymrwymiad i ddiwallu anghenion dynol
- annog potensial dynol

Gall nifer o elfennau gael eu defnyddio i gyfrannu at brofiad addoli.

*drama ..... Y Beibl ..... rhannu*
*llawenydd a*
*phryder ..... cymundeb ...*
*yr etifeddiaeth lenyddol .....*
*tawelwch ..... gweddïau .....*
*anerchiad ..... cerddoriaeth .....*
*myfyrdod ..... storïau .....*
*emynau a chaneuon .....*
*defod .....*
*ysgrythurau crefyddau'r byd .....*
*dawns .....*
*barddoniaeth. ..... trafodaeth*

Gall y drefn y mae'r rhain yn ymddangos amrywio ac ni fydd pob un ohonynt yno o reidrwydd. Mae'r rheiny sy'n arwain addoliad yn ceisio'i wneud yn gynhwysol ac yn ystyrlon i bobl sydd â chredoau ac anghenion gwahanol.

# Cylch addoli'r Undodiaid

Mae cylch addoli'r Undodiaid fel rheol yn nodi
- tymhorau a chylchau heriol y ddaear
- digwyddiadau a gwyliau o'r etifeddiaeth ddynol ehangach, boed yn grefyddol neu yn secwlar – megis Diwrnod Hawliau Dynol a Diwrnod AIDS y Byd
- bywydau a digwyddiadau sydd â lle arbennig yn hanes y ddynoliaeth a datblygiad ysbrydol

Mae Undodiaid yn cynnig gwasanaethau arbennig i ddathlu genedigaeth ac enwi, priodas neu bartneriaeth, neu fywyd sydd wedi dod i'w derfyn. Caiff y rhain eu trefnu, cyn belled ag sy'n bosibl, i fynegi credoau a diwallu anghenion y rheiny sy'n chwarae'r rhan fwyaf blaenllaw ynddynt.

Mae cymundeb, lle y caiff ei arfer, yn mynegi ein diolch am Iesu ac 'eneidiau mawr' eraill, lles y ddynoliaeth, ac adnabod ein dibyniaeth ar haelioni dwyfol y ddaear trwy rannu'r cymundeb a bod yn gymdeithas.

*Mae enwi plant, priodasau, bendithio perthynas hoyw, angladdau a digwyddiadau arwyddocaol eraill bywyd yn ddigwyddiadau sy'n unigryw i'r rhai sy'n cymryd rhan.*



# Addysg grefyddol

Mae Undodiaid (plant ac oedolion) yn cymryd rhan mewn rhaglenni addysg grefyddol sy'n wahanol, sy'n eich annog i feddwl ac sy'n ddifyr.

Mae addysg grefyddol i blant wedi'i gynllunio

- i annog deffroad a datblygiad ysbrydol
- i adeiladu ar synnwyr naturiol plant o ryfeddu
- i sianeli'r awydd i ymholi a chreu mewn modd cadarnhaol
- i rannu storïau o'n hetifeddiaeth crefyddol ni ac o grefyddau eraill.

Mae addysg grefyddol i oedolion yn hanfodol hefyd, a'i ddiben

- yw eich cynorthwyo i ddeall a gwerthuso'r credoau a'r gwerthoedd rydych wedi'u hetifeddu a chredoau a gwerthoedd pobl eraill
- yw darparu fforwm ar gyfer cyfnewid syniadau a dealltwriaeth yn rhydd ac yn barchus
- yw eich cynorthwyo i 'greu eich diwinyddiaeth eich hun' o flociau treftadaeth, profiad, greddf ac adlewyrchu
- yw archwilio dulliau y gall gwerthoedd ysbrydol gael eu cymhwyso i fywyd yn y byd




*Mynachod Tibetaidd y Tashi Lhunpo â'r mandala tywod a gafodd ei greu yn Eglwys Undodaidd Brighton yn rhan o Wyl Gerddoriaeth Gysegredig y Byd yn Brighton.*

# Undodiaid a chymdeithas

Mae Undodiaid yn draddodiadol wedi bod â barn gadarnhaol ynghylch y natur ddynol. Maent yn credu bod gwerth gofalu ar ôl pobl.

Yn ysbryd rhyddid crefyddol a dinesig , maent yn cefnogi cydraddoldeb parch a chyfle i bawb. Maent yn gwrthwynebu gormes a gwahaniaethu ar sail unrhyw ffactor mympwyol neu ddamweiniol megis hîl, rhyw, tuedd rhywiol neu gred crefyddol.

Mae Undodiaid yn credu bod yn rhaid cael cyfaddawd rhwng rhyddid personol a chyfrifoldeb cymdeithasol.



*Canolfan Ieuenctid Cwmwrdu, Gwernogle, Sir Gaerfyrddin*

# Yr Undodiaid a chredoau eraill

Mae'r Undodiaid yn gweld y bydd ffyrdd gwahanol o ddeall a dehongli cyflwr y ddynoliaeth bob amser. Maent yn gweld bod bodolaeth nifer o ddulliau amrywiol i fynegi ffydd yn anochel ac hefyd, o bosibl, yn cyfoethogi. Maent yn credu bod dysgu i fyw gydag amrywiaeth crefyddol yn her fawr i'n cyfnod. O ganlyniad, mae'r Undodiaid

- yn trafod â phobl o grefyddau eraill
- yn hyrwyddo cyfleoedd i wahanol grefyddau rannu eu trysorau ysbrydol mewn addoliad a dathlu
- yn weithredol yn lleol ac yn genedlaethol mewn mudiadau rhyng-grefyddol ac ecwmenaidd

# Undodiaid a Christnogaeth

Daeth mudiad yr Undodiaid i fodolaeth a chafodd ei ddatblygu yn y traddodiad Cristnogol. Heddiw, mae'r rhan fwyaf o Undodiaid yn fodlon cydnabod y berthynas fyw hon mewn rhyw fodd. Mae nifer yn falch o alw'u hunain yn Gristnogion Rhydd neu rhyddfrydol. Er hynny, derbynnir bod nifer o bobl yn ei chael hi'n anodd deall syniadau Iddewig-Gristnogol.

Mae pwyslais Undodiaeth ar ddarparu cymdeithas ac addoliad a fydd yn ystyried traddodiad y Cristnogion Rhydd tra'u bod yn parchu'r bobl hynny hefyd. Ymysg Undodiaid mae'r rheiny sydd wedi darganfod canolbwynt i'w ffydd y tu allan i Gristnogaeth, er enghraifft, mewn dyneiddiaeth grefyddol neu Ysbrydolrwydd sy'n ganolog ar y ddaear.

Nid yw Undodiaid yn honni fod ganddynt yr hawl i ddiffinio Duw i bobl eraill. Dyma rhai o'r ffyrdd y maent yn disgrifio ac yn cael y profiad o Dduw

- fel tad neu fam cyffredinol
- fel ysbryd sy'n uno ac yn rhoi bywyd – sy'n fod gwrywaidd a benywaidd
- fel ffynhonnell popeth, lle mae'r broses greadigol yn datgelu'i hun
- fel realaeth mewnol yn bennaf – y "llais tawel,llonydd"
- fel symbol y gweledigaethau a dyheadau mwyaf bonheddig dynoliaeth – y safon y dylai pobl fesur eu hunain wrtho
- fel "dirgelwch mawr"

Mae parch mawr gan Undodiaid tuag at Iesu. Yn gyffredinol, maent yn meddwl amdano


- fel athro yn nhraddodiad rabinaidd a phroffwydol Iddewiaeth a oedd â neges ganolog ynghylch pwysigrwydd cariad
- fel enghraifft pwerus o onestrwydd, dewrder a bywyd trugarog
- fel dyn cyflawn a digamsyniol
- yn ddwyfol yn yr ystyr fod ei fywyd a'i waith yn cael eu datgelu neu'n dod yn symbol o ddwyfoldeb a photensial uchel sydd yn rhan o bob person.

Mae Undodiaid yn gweld Iesu fel ffigwr mawr, y ffigwr canolog i rai, ar daith ysbrydol y ddynoliaeth. Byddai'r rhan fwyaf felly'n ei anrhydeddu yn hytrach na'i addoli yn unol â hynny.

Caiff y Beibl ei werthfawrogi gan y rhan fwyaf o Undodiaid

- fel cofnod dynol o ymdrech hir pobl i ddeall eu gwreiddiau, eu tynged a'u Duw
- fel cronfa ddofn o ddoethineb a gweledigaeth sy'n haeddu sylw a pharch.

# Y Gwreiddiau



Mae gwreiddiau mudiad yr Undodiaid yn gorwedd yn bennaf yn Niwygiad yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr adeg honno, dechreuodd pobl mewn nifer o wledydd ar draws Ewrop gwestiynu'r ddysgeidiaeth uniongred Gristnogol a chadarnhau'u credoau eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys

- undeb Duw, yn hytrach na dysgeidiaeth y Drindod – dyna'r rheswm dros yr enw 'Undodiaeth'
- natur ddynol yn hytrach na dwyfoldeb Crist
- gwerth bodau dynol yn hytrach na syniadau ynghylch y pechod gwreiddiol, euogrwydd wedi'i etifeddu a llygredd mewnol
- achubiaeth cyffredinol pob enaid yn hytrach na'r ddysgeidiaeth bod y rhan fwyaf o'r ddynoliaeth wedi'u rhagdynghedu i ddamnedigaeth.

Cafodd y mudiadau Undodaidd cyntaf eu sefydlu yn yr unfed ganrif ar bymtheg yng Ngwlad Pwyl a Thransylfania (sy'n rhan o Rwmania heddiw).

Ym Mhrydain, mynegodd nifer o ddiwygwyr radical gredoau Undodaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg gyda rhai ohonynt yn cael eu carcharu a merthyru. Un o'r arloeswyr yng Nghymru oedd Iolo Morganwg, a welir yn y llun.

# Gwybodaeth bellach

Mwy o wybodaeth oddi wrth;
Essex Hall, 1-6 Essex St, Llundain. WC2R 3HY

ebost - ga@unitarian.org.uk

Gwefan - www.unitarian.org.uk

Neu yn Gymraeg;

Parch. Eric Jones
14 Clifton St, Aberdâr. CF44 7PB

ebost - eric.clochdar@gmail.com

Cyhoeddiad yr Undodiaid a Christnogion Rhydd
a pharatowyd y Fersiwn Gymraeg gan y Gyfadran
Undodaidd yng Nghymru